

Beibl Canllaw

Mae gennyf 2 gopi o'r Beibl Canllaw a gyhoeddwyd ddechrau mis Awst ar ôl am y pris gostyngol o £20.

Felly, os ydych chi eisiau arbed £5 oddi ar bris llawn y Beibl hwn, rhowch wybod i mi mor fuan â phosibl trwy ffonio 01286 872390, neu anfon e-bost at john.cilfynydd@btinternet.com.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Medi 20: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Gweinyddir y Cymundeb yn oedfa'r hwyr. Bydd Cymanfa'r Annibynwyr yn Ysgol Penisarwaun am 2.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Medi 20: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan. Bydd Cymanfa'r Annibynwyr yn Ysgol Penisarwaun am 2.00 o'r gloch. Ni fydd oedfa gyda'r nos.

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 13

5.00 p.m. - Mr T Alun Williams

Medi 20

10.00 a.m. - Y Gweinidog
2.00 p.m. - Cymanfa'r Annibynwyr yn Ysgol Penisarwaun
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 27

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

REHOBOTH
Dydd Sul, Medi 20: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM
Dydd Sul, Medi 20: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Trefor Lewis, Hen Golwyn.

Dydd Iau, Medi 24: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

CARMEL
Nos Wener, Medi 18: Cynhelir 'Dwylo Pysur' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 20: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Miss Nerys Jackson, Caernarfon.

Dydd Llun, Medi 21: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE



Y mis nesaf - Llanberis

Medi 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Medi 20

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion W Williams
2.00 p.m. - Cymanfa'r Annibynwyr yn Ysgol Penisarwaun
5.00 p.m. - Dim Oedfa

Medi 27

10.00 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 649: Dydd Sul, 13 Medi, 2015

Walter a Bertie

Bedair blynedd yn ôl, ym Mrwsel ar Fedi 16 2011, cwblhaodd Americanwr o'r enw Walter Dix ras 200 medr mewn 19.53 o eiliadau. Dim ond tri dyn oedd wedi rhedeg yn gyflymach erioed. Ond druan o Walter, gan fod un o'r tri - Yohan Blake - wedi cyflawni'r gamp yn yr un ras ag o'r diwrnod hwnnw! Ddarua Walter ddim hyd yn oed ennill y ras! Afraid dweud mai Ussain Bolt yw'r cyflymaf erioed wedi iddo redeg y 200 medr mewn 19.19 o eiliadau ym Merlin ar Awst 20, 2009.

Os nad oedd 19.53 o eiliadau yn ddigon cyflym i Walter, roedd yn hen ddigon cyflym i Bertie sicrhau ei le yn rhifyn diweddaraf y *Guinness Book of Records*. Cwblhau 18 troedfedd mewn 19.53 o eiliadau oedd camp arbennig Bertie'r crwban o Durham. O gofio mor ddjarhebol o araf yw crwbanod, roedd camp Bertie o bosibl yn fwy rhyfeddol nag eiddo Walter!

Does gen i mo'r syniad lleiaf pa mor gyflym y gallaf redeg erbyn hyn. Mewn ras yn erbyn Bertie, siawns mai'r sgwarnog fyddwn i. Mewn ras yn erbyn Walter, y crwban fyddwn i'n sicr. Byddai'n ddifyr gwybod p'r un ai at Walter ynteu Bertie y byddwn agosaf ar ôl 19.53 o eiliadau! Ond dyna ras a hanner fyddai Bolt dros 200 medr yn erbyn Bertie dros 18 troedfedd - y sgwarnog a'r crwban go iawn! Dim ond mewn chwedl y cewch chi'r fath ras, wrth gwrs. Fedwrch chi ddim cymharu Bertie gydag athletwyr fel

Walter Dix ac Ussain Bolt. Dydyn nhw ddim yn yr un byd. Byddai 18 troedfedd mewn 19.53 o eiliadau yn amlwg yn ddiweddedd gyrfa i athletwr.

Rhedeg y ras y'n gosodwyd ynddi sydd angen i ni ei wneud. Fedrwn ni ond gwneud hynny. Ond yn y bywyd Cristnogol mae peryg i ni edrych ar ambell i sgwarnog, a digalonni. O weld y ddawn sydd gan ambell un i dystio i Grist, neu'r ffydd gref sydd gan rai yn wyneb pob math o dreialon, neu'r modd y mae eraill yn dangos eu cariad at Grist trwy ei wasanaethu mewn sefyllfaoedd peryglus ac anodd gallwn anobeithio a gweld ein hunain yn ddisgyblion cwbl aneffeithiol i Iesu Grist.

Ond mae peryg i ni hefyd edrych ar ambell i grwban, ac ymffrostio. O weld rhai Cristnogion yn cael trafferth i ddal ati yn eu tystiolaeth a'u gwasanaeth, mae'n rhwydd iawn teimlo'n falch a meddwl ein bod gymaint gwell na nhw. O weld eraill baglu ac yn ildio i bob math o demtasiynau, mor rhwydd yw canmol ein hunain am beidio â chael ein baglu yn yr un ffordd.

Ond nid bywyd y Cristnogion eraill hyn yw ein bywyd ni. Fedrwn ni ddim byw bywyd pobl eraill, a does dim angen i ni geisio gwneud hynny. Rhedeg y ras y'n gosodwyd ni ynddi yw'r nod, a gwneud hynny gan wybod bod nerth a chymorth Duw ar gyfer beth bynnag sydd angen ei wneud a beth bynnag a wynebwn.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw. Os na fuoch yn yr oedfa heddiw, ac os oes modd i chi ddod, gwahodddwn chi i ddod atom yr wythnos nesaf.

Gwasanaethir yn yr oedfa Gymundeb yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn am 11.15 o'r gloch. Cynhelir oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch yn Neiniolen gan Mr T Alun Williams, Caernarfon. Croeso iddo, a diolch am ei wasanaeth

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli. Croeso iddo yntau, a diolch am ei wasanaeth.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir yn yr oedfa Gymundeb am 2.00 gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at Mrs Hilda Parry, 15 Porth y Gogledd, Deiniolen sydd yn Ysbyty Gwynedd a Mrs Beryl Lewis, 3 Rhos Efrog, Llanberis sydd yn Ysbyty Walton, Lerpwl.

Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Margaret Roberts, Porth y Gogledd, Deiniolen a fu yn Ysbyty Gwynedd am ychydig ddyddiau ddechrau'r wythnos, ac i Mr Llew Jones, Caer Gwigin, Talybont sydd gartref yn dilyn y llawndriniaeth a gafodd yn yr ysbyty.

Dymunwn yn dda i bawb arall sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd. Mae amryw ohonoch yn methu â dod i'r oedfaon a dymunwn adferiad buan i chi.

Cymanfa

Cynhelir Cymanfa Annibynwyr Cylch Cwm-y-glo am 2.00 o'r gloch ddydd Sul nesaf, Medi 20, yn Ysgol Gymuned Penisarwaun.

Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug fydd yn arwain yr addoliad bnawn Sul, a bydd Andrew Settatee yn cymryd rhan gyda hi.

Bydd y cyfarfod ar yr un patrwm â'r llynedd a'r blynyddoedd diwethaf, efo'r pwyslais ar ddathlu'r Ffydd a'r Efengyl trwy'r canu a'r neges a gyflwynir.

Dowch draw bnawn Sul i ymuno yn yr

addoliad. Bydd yr addoliad yn addas ar gyfer pobl a phlant o bob oed.

Agor y Llyfr

Aeth bron i flwyddyn heibio ers i ni sôn am gynnwll criw o bobl yn Neiniolen er mwyn ymweld ag Ysgol Gwaun Gynfi dan gynllun 'Agor y Llyfr'.

Cafwyd peth ymateb ond ni lwyddwyd i roi cychwyn ar y gwaith. Rydym am roi cynnig arall arni'r tymor hwn. Byddwn yn cyfarfod i drafod y gwaith yn festri Ebeneser am 10.00 o'r gloch ddydd Gwener, Medi 25 gyda'r bwriad o allu dechrau'r gwaith cyn y Nadolig.

Cynllun syml yw 'Agor y Llyfr' yn ei hanfod. Mae criw bach o bobl (hyd at 6 o bobl fel arfer) yn darllen stori o'r Beibl (mewn fersiwn hawdd ei ddeall) i blant ysgol, fel arfer yn ystod addoliad rheolaidd yr ysgol. Mae elfen fechan o actio'r stori wrth ei darllen.

Mae'r gwaith yn syml ac yn rhwydd iawn. Nid oes angen gwneud mwy na darllen ychydig eiriau, ond mae'n fodd o gyflwyno storiâu'r Beibl i blant, ac o gofio na fyddai'r mwyafrif ohonynt yn clywed y storiâu hyn fel arall, mae'n rhwydd gweld gwerth y cynllun.

Mae llawer o ysgolion wedi croesawu timau 'Agor y Llyfr' yn ddiweddar ac wedi gwerthfawrogi'r ymdrech a wneir gan y timau hynny.

Rhowch wybod os ydych am fod yn

rhan o'r tim hwn, neu dowch i'r cyfarfod wythnos i fore Gwener.

Bwriedir ymweld â'r Ysgol unwaith y mis. Dim ond rhyw hanner awr fyddwn yno ar y mwyaf. Bydd y cyfan dan nawdd Cynllun Efe.

Y Gemau

Adeg y Gemau Olympaidd yn 2012 bu Cynllun Efe yn cynnal 'Y Gemau' yn nifer o ysgolion cynradd yr ardal. Roedd 'Y Gemau' yn ddiwrnod cyfan o weithgareddau addysgol ar agweddau arbennig o'r Ffydd Gristnogol.

Mae cwrs tebyg wedi ei baratoi ar gyfer cyfnod Cwpan Rygbi'r Byd a fydd yn cychwyn ddiwedd yr wythnos hon, a bydd yn Andrew Settatee yn arwain y gweithgarwch hwn yn rhai o'r ysgolion dros yr wythnosau nesaf.

Sesiwn hanner diwrnod fydd gennym y tro hwn. Bydd un o'r sesiynau yn Ysgol Dolbadarn (ddydd Iau, Hydref 1 mae'n debyg). Un o'r gobeithion ar gyfer y cwrs hwn yw creu cyswllt rhwng y plant ac eglwysi lleol. Felly, bydd Andrew'n falch iawn o glywed gan unrhyw un o bobl Capel Coch a allai ddod i'r Ysgol gyda ni. Y cwbl fydd angen ei wneud fydd rhoi help llaw gyda rhai o'r gemau a'r gweithgareddau syml. Gan mai un dosbarth yn unig fydd yn rhan o'r gwaith, criw cymharol fach o blant fydd yno - nid llond ysgol gyfan! Holwch Andrew am ragor o fanylion. Am y gwaith hwn.

'Agor y Llyfr' ... 'Agor y Llyfr' ... 'Agor y Llyfr' ... 'Agor y Llyfr' ... 'Agor y Llyfr'

Cyflwyno storiâu'r Beibl i blant

Gweler uchod